Inspecting policing in the public interest

Archwiliadau Cenedlaethol Amddiffyn Plant

Heddlu De Cymru
23 Chwefror – 6 Mawrth 2015

Gorffennaf 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-822-6

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

Rhagair

Mae pob plentyn yn haeddu cael ei fagu mewn amgylchedd diogel, gyda gofal ac wedi ei ddiogelu rhag niwed. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffynnu mewn teuluoedd cariadus ac yn tyfu i fod yn oedolion heb niwed. Yn anffodus, mae gormod o blant yn cael eu cam-drin neu amddifadu gan y rhai sy'n gyfrifol am eu gofal; weithiau mae angen eu hamddiffyn rhag oedolion eraill y maent yn dod i gysylltiad â nhw ac mae rhai weithiau'n mynd ar goll, neu yn treulio amser mewn amgylcheddau, neu gyda phobl, sy'n niweidiol iddynt.

Er ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i ofalu am blant bregus, mae gan heddluoedd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill, rôl benodol wrth amddiffyn plant a sicrhau y bodlonir eu hanghenion.

Amddiffyn plant yw un o'r tasgau pwysicaf mae'r heddlu yn cyflawni. Dim ond yr heddlu all ymchwilio i droseddau a amheuir, arestio cyflawnwyr, ac mae ganddynt rôl arwyddocaol o ran monitor troseddwyr rhyw. Mae gan swyddogion yr heddlu'r pŵer i gymryd plentyn sydd mewn perygl i fan diogel, neu i geisio gorchymyn i gyfyngu cyswllt troseddwr gyda phlant. Mae gan wasanaeth yr heddlu hefyd rôl arwyddocaol o ran gweithio gydag asiantaethau eraill i ddiogelu'r plentyn a'i les, yn y tymor hirach.

Yn aml mae swyddogion yr heddlu yn gweld a chlywed popeth yn y gymuned wrth iddynt gyflawni eu tasgau dyddiol ac yn dod ar draws plant all fod wedi eu hamddifadu neu gam-drin. Rhaid iddynt fod yn effro i, a nodi, plant allai fod dan risg.

I amddiffyn plant yn dda, rhaid i'r heddlu gyflawni ei holl ddyletswyddau craidd i safon uchel. Rhaid i swyddogion yr heddlu siarad â phlant, gwrando arnynt a deall eu hofnau a phryderon. Rhaid i'r heddlu hefyd weithio'n dda gydag asiantaethau eraill i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn syrthio trwy'r rhwyd ac i osgoi ymyrryd yn ormodol a dyblygu ymdrech.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn archwilio gwaith amddiffyn plant pob un o heddluoedd Cymru a Lloegr. Bwriedir i'r adroddiadau ddarparu gwybodaeth i'r heddlu, comisiynydd yr heddlu a throseddu (PCC) a'r cyhoedd ar ba mor dda mae plant wedi eu hamddiffyn a'u hanghenion wedi eu bodloni, ac i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Contents

Rhagair **2**

1. Cyflwyniad **4**

2. Cyd-destun ar gyfer yr heddlu **5**

3. Rôl yr heddlu mewn amddiffyn plant **7**

4. Casgliadau: profiadau, cynnydd a chanlyniadau ar gyfer plant sydd angen help ac amddiffyniad **9**

Cyswllt cychwynnol 9

Asesiad a help 11

Ymchwiliad 14

Gwneud penderfyniadau 16

Oedolyn dibynadwy 17

Rheoli'r rhai sy'n cyflwyno risg i blant 19

Cadw gan yr heddlu 20

5. Casgliadau: arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu **23**

6. Casgliadau: Effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu a'i ymateb i blant sydd angen help ac amddiffyn **26**

7. Argymhellion **27**

8. Camau nesaf **30**

Atodiad A Methodoleg yr archwiliad amddiffyn plant **31**

Atodiad B Geirfa **34**

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o gasgliadau archwiliad o wasanaethau amddiffyn plant yn Heddlu De Cymru a gynhaliwyd yn niwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2015. Mae'r adroddiad yn cynnwys naw pennod mewn tri phrif ddarn. Mae'r rhan gyntaf yn darparu gwybodaeth ar y cefndir i'r archwiliad ac i Heddlu De Cymru. Mae'r ail ran yn canolbwyntio ar gasgliadau'r archwiliad, ac mae'r drydedd ran yn edrych tua'r dyfodol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Cefndir

Rhwng Hydref 2011 a Mawrth 2013, bu HMIC yn cymryd rhan, ar sail amlasiantaethol, mewn nifer o archwiliadau amddiffyn plant. Ynghyd â thystiolaeth o gryfderau ac arfer effeithiol, roedd yr archwiliadau hyn yn amlygu meysydd i'w gwella, yn arbennig: ansawdd ymchwiliadau ar y cyd; nodi risg; delio â cham-drin domestig; a chadw plant yn y ddalfa.

I ddelio â'r materion hyn, penderfynodd HMIC gynnal rhaglen o archwiliadau o asiantaethau unigol ar gyfer holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Nodau'r rhaglen archwilio yw i:

- asesu pa mor effeithiol yw heddluoedd o ran diogelu plant sydd dan risg;
- gwneud argymhellion i heddluoedd ar gyfer gwella arferion amddiffyn plant;
- amlygu arferion effeithiol o ran gwaith amddiffyn plant; ac
- ysgogi gwelliannau yn arferion amddiffyn plant heddluoedd.

Mae ffocws yr archwiliad ar y canlyniadau ar gyfer, a phrofiadau, plant sy'n dod i gyswllt â'r heddlu ble ceir pryderon am eu diogelwch neu les.

Mae'r fethodoleg archwilio yn adeiladu ar archwiliadau amlasiantaethol cynharach. Mae'n cynnwys hunanasesiad ac archwiliadau achosion a gyflawnwyd gan yr heddlu, ac archwiliadau achos a chyfweliadau gyda swyddogion a staff yr heddlu a chynrychiolwyr o asiantaethau partner, a gyflawnwyd gan HMIC.1

[1] Ceir manylion sut fyddwn ni'n cyflawni'r archwiliadau hyn yn Atodiad A.

2. Cyd-destun ar gyfer yr heddlu

Mae gan Heddlu De Cymru tua 5,120 o staff. Mae'r gweithlu'n cynnwys:

- 2,845 o swyddogion yr heddlu;
- 1,849 o staff yr heddlu; a
- 427 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu[2].

Mae ardal yr heddlu yn cwmpasu 10 y cant o fas tir Cymru ac yn darparu gwasanaethau plismona i 42 y cant o'r boblogaeth – tua 1.3 miliwn o bobl. Caerdydd yw'r ddinas fawr yn ardal yr heddlu gyda phoblogaeth o tua 346,000. Trefi arwyddocaol eraill yn ardal yr heddlu yw Abertawe (poblogaeth tua 300,000) a Merthyr Tudful (poblogaeth tua 60,000).

Mae yna saith awdurdod lleol yn ardal Heddlu De Cymru: Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Bro Morgannwg, Pen-y-bont a Chaerdydd. Maent yn gyfrifol am amddiffyn plant o fewn eu ffiniau. Mae gan yr heddlu bedair adran blismona, a elwir yn unedau rheoli sylfaenol (BCU): Gogledd (yn cwmpasu Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf), Gorllewin (yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe), Canol (yn cwmpasu Bro Morgannwg a Phen-y-bont) a Dwyrain (yn cwmpasu Caerdydd).

Yn Heddlu De Cymru, mae adran ganolog ddiogelu'r cyhoedd (PPD) yn darparu llywodraethu ac yn goruchwylio diogelu ar draws yr heddlu. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys datblygiad strategol diogelu plant (yn cynnwys camfanteisio rhywiol ar blant); cam-drin domestig; oedolion bregus; trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA); unigolion coll; trais a throseddau rhyw difrifol; trais seiliedig ar urddas; anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod.

Mae gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol wedi eu harwain gan brif gwnstabl cynorthwyol. Mae'r PDD canolog wedi ei arwain gan dditectif uwch-arolygydd, gyda chefnogaeth ditectif brif arolygydd a ditectif arolygydd.

Mae'r PDD hefyd yn darparu cefnogaeth strategol i'r pedair uned diogelu'r cyhoedd (PPU) sydd wedi eu lleoli yn y pedair uned rheoli sylfaenol. Y prif uwch-arolygydd (comander y BCU) sy'n gyfrifol am yr unedau diogelu'r cyhoedd yn yr unedau rheoli sylfaenol. Mae uwch-arolygydd a ditectif brif arolygydd (arweinydd diogelu plant) yn cefnogi comander y BCU sydd â chyfrifoldeb rheoli ar gyfer yr unedau diogelu'r cyhoedd.

---

[2] *Police workforce, England and Wales, 30 Medi 2014,* Swyddfa Gartref, Ionawr 2015, ar gael ar y ddolen hon: www.gov.uk/government/statistics/police-workforce-england-and-wales-30-september-2014

Mae tair o’r unedau rheoli sylfaenol (Canol, Gorllewin a Dwyrain) yn gweithredu unedau cyfeirio penodedig ar gyfer diogelu plant tra bod gan uned rheoli sylfaenol y Gogledd ganolfan ddiogelu amlasiantaethol (MASH).

Ar adeg yr archwiliad, diwedd Chwefror i ddechrau Mawrth 2015, roedd Heddlu De Cymru yn ystyried ymestyn y model MASH ar draws ardal yr heddlu.

3. Rôl yr heddlu mewn amddiffyn plant

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amddiffyn plant yng Nghymru. Mae'r system amddiffyn plant yng Nghymru yn debyg i'r system yn Lloegr.

Dan Ddeddf Plant 1989, mae gwasanaeth yr heddlu, yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner megis gwasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau addysg, yn gyfrifol am wneud ymholiadau i ddiogelu a sicrhau lles unrhyw blentyn o fewn ei ardal sy'n dioddef (neu'n debygol o ddioddef) niwed arwyddocaol.[3] Mae yna ddyletswydd ar yr heddlu i gyfeirio unrhyw blentyn mewn angen y byddant yn ei ganfod wrth gyflawni eu gwaith at yr awdurdod lleol.[4] Amlinella canllaw Llywodraeth Cymru[5] sut ddylid arfer y dyletswyddau a chyfrifoldebau hyn.

Mae'r rolau heddlu penodol a gyflwynir yn y canllaw yn ymwneud â:

- nodi plant allai fod dan risg o gam-drin ac esgeulustod;
- ymchwilio i droseddau honedig yn erbyn plant;
- eu gwaith gydag asiantaethau eraill, yn arbennig y gofyniad i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i faterion amddiffyn plant; ac
- arfer pwerau argyfwng i amddiffyn plant.

Dylai pob swyddog yr heddlu a staff yr heddlu ddeall ei ddyletswydd i amddiffyn plant yn rhan o'u busnes dyddiol. Mae'n allweddol fod swyddogion sy'n mynd i gartrefi pobl ar unrhyw fater plismona yn cydnabod anghenion plant a welant. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddant yn delio â cham-drin domestig a digwyddiadau eraill ble gallai trais fod yn ffactor. Mae'r ddyletswydd i amddiffyn plant yn ymestyn i blant a gedwir yn nalfa'r heddlu.

---

[3] Adran 47 Deddf Plant 1989.

[4] Mae Adran 17 Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal y credir eu bod 'mewn angen'. Gallai'r heddlu ddod o hyd i blant sydd 'mewn angen' pan fyddant yn mynychu digwyddiadau a dylent gyfeirio'r achosion hyn at yr awdurdod lleol. Mae plentyn 'mewn angen' os yw ef neu hi yn anabl, yn annhebygol o gael y cyfle i gyflawni safon resymol o iechyd neu ddatblygiad, neu os yw ei iechyd neu ddatblygiad yn debygol o gael ei amharu heb ddarpariaeth gwasanaeth yr awdurdod lleol.

[5] *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), ar gael trwy ddilyn y ddolen hon: http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/safeguardingunder2004act/?lang=cy

Mae nifer o dimau ar draws heddluoedd yn perfformio rolau pwysig o ran amddiffyn plant rhag niwed, yn cynnwys y rhai sy'n dadansoddi cyfrifiaduron i sefydlu a oes delweddau anweddus o blant arnynt, ac eraill sy'n rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig a phobl beryglus sy'n byw mewn cymunedau. Rhaid iddynt ymweld yn rheolaidd â throseddwyr rhyw, sefydlu natur risg y troseddwyr hyn ar hyn o bryd a sefydlu unrhyw fesurau angenrheidiol i liniaru'r risg honno.

Er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn cydweithio i gadw plant yn ddiogel ac i ofalu am eu lles, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr sefydlu bwrdd lleol diogelu plant (LSCB)[6]. Bydd y trefniadau hyn yn newid yng Nghymru yn Ebrill 2016 pan fydd yr LSCBs sy'n gweithredu ymhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol unigol yng Nghymru yn cael eu disodli gan 6 bwrdd diogelu plant[7]. I baratoi ar gyfer y newid hwn, mae tri bwrdd rhanbarthol diogelu plant yn gweithredu ar gyfer ardal Heddlu De Cymru, sy'n cwmpasu saith ardal weinyddol yr awdurdodau lleol. Mae'r byrddau yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob asiantaeth gyda chyfrifoldebau am ddiogelu plant (yn cynnwys yr heddlu). Maent yn hyrwyddo gweithgareddau diogelu, sicrhau bod amddiffyn plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar draws eu hardal, ac yn dal ei gilydd yn atebol.

[6] Mae gan LSCBs ddyletswydd statudol, dan y Ddeddf Plant 2004, i gydlynu sut mae asiantaethau yn cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac i sicrhau bod trefniadau diogelu yn effeithiol. Sefydlir swyddogaethau LSCBs yng Nghymru yn y Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006, 2006 Rhif 1705 (W. 167), ar gael o'r ddolen ganlynol: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/1705/made/welsh. Mae'r *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*, Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008, yn darparu canllaw ac yn hysbysu arferion diogelu plant ar gyfer LSCBs yng Nghymru. Mae'r gweithdrefnau ar gael ar y ddolen hon: http://www.awcpp.org.uk/cy/hafan/protocolau-ar-gyfer-cymru-gyfan/

[7] Rhan 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, 2014 anaw 4, ar gael o'r ddolen hon: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents.

4. Casgliadau: profiadau, cynnydd a chanlyniadau ar gyfer plant sydd angen help ac amddiffyniad

Yn ystod yr archwiliad, fe asesodd Heddlu De Cymru 33 o achosion yn unol â'r meini prawf a ddarparwyd gan HMIC. Gofynnwyd i'r heddlu raddio pob un o'r 33 achos a hunanaseswyd. Roedd aseswyr yr heddlu yn ystyried bod arferion yn dda mewn 27 o'r achosion ac yn ddigonol mewn 5 o achosion.[8] Ni dderbyniodd un achos raddiad penodol ac ni phennwyd bod yr un ohonynt yn annigonol. Mae arolygwyr HMIC hefyd wedi asesu'r achosion hyn, gan raddio 21 i fod yn dda, 2 yn ddigonol, 7 angen gwelliant a 3 yn annigonol. Dewisodd yr arolygwyr 52 achos arall ble nodwyd bod plant dan risg a'u harchwilio. Aseswyd 14 i fod yn dda, 9 yn ddigonol, 21 angen gwelliant ac 8 yn annigonol.

Cyswllt cychwynnol

Canfu arolygwyr bod yr heddlu yn ymateb yn dda i ddigwyddiadau pan godwyd pryderon penodol am blant. Mynychodd swyddogion yn brydlon, cyflawnwyd amrywiaeth o dasgau rhagarweiniol megis sicrhau diogelwch uniongyrchol plant, sicrhawyd tystiolaeth a gwnaed asesiad ynghylch y ffordd orau i symud ymlaen. Pan oedd angen gweithredu pellach, megis ymweliad ar y cyd gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, trefnwyd hyn yn gyflym. Cyflawnodd y swyddogion ymholiadau cychwynnol trylwyr a defnyddio eu pwerau arestio ble roedd angen. Er enghraifft:

y camau a gymerwyd pan fynegwyd pryderon gan ŵr am iechyd meddwl ei wraig, yn poeni y byddai'n niweidio ei hun a'u plant. Mynychodd swyddogion yn brydlon a gwirio ar les y plant. Cysylltwyd â swyddogion diogelu plant arbenigol ar unwaith ac fe arestiwyd y fam. Diogelu'r plant oedd blaenoriaeth y broses gwneud penderfyniadau. Cynhaliwyd atgyfeiriadau priodol i asiantaethau perthnasol a chynnal trafodaeth strategaeth amserol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol priodol plant.

[8] Sefydlir y mathau o achosion a methodoleg archwilio yn Atodiad A

y camau a gymerwyd wedi i fam ganfod ei merch 9 oed a mab 15 oed ar eu pennau eu hunain mewn ystafell wely. Roedd yn tynnu ei dillad isaf i fyny ac fe ddywedodd bod ei brawd wedi ymosod arni'n rhywiol. Roedd ymateb cychwynnol y swyddogion rheng flaen yn dda, ac fe geisiont gyngor arbenigol o ran y camau priodol i'w cymryd. Cafodd ei brawd ei arestio ar unwaith gan ddiogelu'r ferch rhag niwed pellach. Rhoddodd swyddogion ystyriaeth ofalus i'w hanghenion, ac fe ddeliwyd ag adfer tystiolaeth fforensig mewn modd sensitif. Cysylltwyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn fuan i sicrhau y cychwynnwyd mesurau diogelu tymor hirach yn brydlon.

Canfu'r arolygwyr fod staff yn ystafell reoli'r heddlu yn effro i risg a bregusrwydd ac yn gyffredinol yn wybodus wrth ddelio â galwadau oedd yn amlwg yn ymwneud â phryder diogelu plentyn. Roedd yna enghreifftiau da o staff yr ystafell reoli'n gweithredu'n fuan, yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl ac yn pasio'r achos ymlaen i swyddogion rheng flaen neu swyddog diogelu plant arbenigol. Roedd staff yr ystafell reoli wedi eu hyfforddi i asesu plant mewn perygl o gamfanteisio rhywiol. Roedd yr heddlu wedi cyflwyno 'llumanau' yn ddiweddar ar systemau'r heddlu i nodi plant sydd dan risg o gamfanteisio rhywiol. Er nad yw wedi ei fewnosod yn llawn, canfuom dystiolaeth bod yr arfer hwn wedi diogelu plant agored i niwed. Er enghraifft

adroddwyd bod merch 16 oed ar goll gan staff yn ei chartref gofal. Gofynnodd atebwr galwadau'r heddlu gwestiynau perthnasol a sefydlu y'i hadroddwyd i fod ar goll o'i chartref gofal ar sawl achlysur, a bod risg o gamfanteisio rhywiol. Pasiwyd gwybodaeth ar unwaith i heddlu cymdogol ble roedd ei theulu yn byw ac fe'i lleolwyd yn brydlon. Fe ymgysylltodd swyddogion a fynychodd yn dda gyda hi, a chael gwybodaeth i ystyried mesurau diogelu i'w hamddiffyn yn y dyfodol.

Roedd Heddlu De Cymru wedi buddsoddi amser ac adnoddau mewn hyfforddiant ar gyfer swyddogion rheng flaen ar eu rôl i ddiogelu plant. Roedd hyn wedi trosi i well ymwybyddiaeth a theimlad o gyfrifoldeb am faterion diogelu plant. Gan fwyaf, roedd swyddogion yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i ddiogelu plant a sicrhau y bodlonwyd eu hanghenion. Fe gyflwynont ffurflenni hysbysiad diogelu cyhoeddus yn rheolaidd (ble mae plentyn mewn perygl), ac yn gyffredinol roedd ansawdd y rhain yn dda.

Roedd yr heddlu fel arfer yn mynychu digwyddiadau cam-drin domestig yn brydlon, a, gan fwyaf, yn cofnodi a oeddynt wedi gwirio fod plant oedd yn bresennol yn ddiogel ac yn iach a sicrhau eu diogelwch uniongyrchol. Roedd staff rheng flaen yn mynychu digwyddiadau cam-drin domestig fel arfer yn cofnodi arsylwadau am ymarweddiad neu ymddygiad plant.

Asesiad a help

Mae’r tair uned rheoli sylfaenol a’r MASH a ddatblygwyd yn ddiwedd yn uned rheoli sylfaenol y Gogledd yn bwyntiau ffocws ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chynllunio rhyngasiantaethol. Mae’r unedau yn rheoli symiau mawr o wybodaeth ac yn bennaf yn gwneud hynny’n gyflym ac effeithiol. Cynhaliwyd ymholiadau cychwynnol a thrafodaethau strategaeth[9] yn brydlon fel arfer. Roedd arolygwyr yn falch i weld goruchwyliaeth gadarn o achosion a gyfeiriwyd i’r unedau cyfeirio a’r MASH gan oruchwylwyr amddiffyn plant cymwysedig a phrofiadol. Fe nodwyd pryderon cam-drin plant yn gyflym ac roedd hyn yn hybu’r ymateb ymchwilio a diogelu cynnar. Dywedwyd wrth arolygwyr fod sefydlu’r unedau cyfeirio a’r MASH wedi hwyluso rhywfaint o’r pwysau ar ymchwilwyr cam-drin plant yn ystod camau cynnar asesiad a diogelu, ac wedi eu galluogi i roi mwy o sylw i ymchwiliadau.

Roedd sawl enghraifft o asiantaethau yn gweithio’n dda gyda’i gilydd – yn nodi’r risgiau, gwneud cynlluniau i leihau’r risgiau hyn a chefnogi plant a theuluoedd. Roedd y rhan fwyaf o’r ymholiadau cychwynnol yn amserol gan gytuno ar ymchwiliad penodol a chynlluniau diogelu. Roedd asesiadau cychwynnol a mesurau amddiffynnol uniongyrchol yn aml yn dda ac roedd tystiolaeth fod yr heddlu yn cymryd rhan mewn cynlluniau mwy hirdymor i blant oedd yn wynebu’r risg mwyaf. Roedd gan unedau diogelu’r cyhoedd dditectifs diogelu plant gyda’r rôl o fynychu cyfarfodydd strategaeth a’r holl gynadleddau achos diogelu plant cychwynnol[10]. Fodd bynnag, nododd staff mai dim ond tua 70 y cant o gyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achosion cychwynnol swyddogion yn uned reoli sylfaenol y Dwyrain oedd wedi eu mynychu oherwydd pwysau llwyth gwaith yn yr uned diogelu’r cyhoedd. Roedd hyn wedi ei nodi fel maes ar gyfer gwelliant a’r heddlu yn cymryd camau i asesu llwythi gwaith ac i adolygu staffio ar draws ardal yr heddlu er mwyn delio â’r broblem. Fodd bynnag, fe welsom oedi achlysurol wrth gofnodi canlyniadau cynadleddau achosion ar gofnodion yr heddlu.

---

[9] Ble bynnag y ceir achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu’n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol, dylid cael trafodaeth strategaeth yn cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdod lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chyrff eraill megis yr asiantaeth gyfeirio. Gallai hyn fod ar ffurf cyfarfod amlasiantaethol neu alwadau ffôn ac efallai y bydd angen mwy nag un drafodaeth. Gall trafodaeth strategaeth ddigwydd yn dilyn cyfeiriad neu ar unrhyw adeg arall, yn cynnwys yn ystod y broses asesu. *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), pennod 8, paragraffau 8.77 – 8.87.

[10] Yn dilyn ymholiadau adran 47 (gweler pennod 4 uchod), mae cynhadledd gychwynnol amddiffyn plentyn yn uno aelodau’r teulu, y plentyn ble fo’n briodol a’r gweithwyr hynny sy’n ymwneud fwyaf â’r plentyn a’r teulu, i wneud penderfyniadau am ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol. Os yw pryderon yn ymwneud â phlentyn heb ei eni, dylid ystyried a ddylid cynnal cynhadledd amddiffyn plentyn cyn genedigaeth y plentyn. *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004,* Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), pennod 8, paragraffau 8.110 – 8.142.

Gwelodd arolygwyr nad oedd swyddogion bob amser yn arddangos ymwybyddiaeth drylwyr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â nodi camfanteisio rhywiol ar blant. Yn yr achosion hynny ble roedd pobl ifanc wedi datgelu gwybodaeth naill ai i'r heddlu neu i weithiwr yr ymddiriedir ynddo mewn asiantaeth arall, doedd swyddogion ddim o reidrwydd yn cynnwys yr wybodaeth honno i'w syniadau neu i gynlluniau amddiffynnol. Er enghraifft:

achos merch 15 oed yr oedd ei mam yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Roedd ymddygiad y fam yn aml yn ansicr. Er bod cryn dipyn o weithgaredd partneriaeth i ddatblygu cynllun diogelu, roedd llawer ohono yn ymwneud ag iechyd meddwl ei mam. Roedd gan yr heddlu wybodaeth bod y ferch mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, ond nid oedd cynllun i'w diogelu rhag ei hymosodwyr.

achos yn ymwneud â dwy ferch 16 oed a nodwyd i fod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol yn 2014. Mynegodd yr heddlu a phartneriaid bryderon yn adroddiadau'r heddlu eu bod wedi cwrdd â dynion hŷn ar gyfer rhyw ac yn mynychu bwytai bwyd sydyn yng nghanol y ddinas. Roedd yna gryn dipyn o weithgaredd amlasiantaethol i ddiogelu'r ddwy ferch; fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth oedd yna o asesiad o'r risg o niwed i ferched eraill nac ymdrechion i reoli'r risg a gyflwynwyd gan y cyflawnwyr.

Roedd gan arolygwyr bryderon am ddiogelu rhai plant sy'n mynd ar goll o'u cartref yn rheolaidd. Asesodd arolygwyr wyth achos a barnu pedwar ohonynt i fod yn annigonol a thri fel angen gwelliant. Dim ond un a ganfuwyd i fod yn dda. Er bod yr ymateb cychwynnol i leoli'r plentyn wedi ei flaenoriaethu'n aml, nid oedd cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar a chynllunio rhyngasiantaethol tymor hir i ddiogelu plant wedi eu hystyried. Nid oedd gan yr heddlu gynlluniau ysgogiad chwaith (cynllun i leoli plentyn yn gyflym os yw'n mynd ar goll yn gyson), a fyddai'n helpu lleoli'r plentyn yn gynt trwy ddefnyddio gwybodaeth a gedwir gan yr heddlu o achosion 'ar goll' blaenorol.

Mewn rhai achosion, roedd plant – yn arbennig y rhai yng ngofal yr awdurdod lleol – wedi eu hadrodd i fod ar goll dros 20 o weithiau heb gymryd unrhyw gamau i'w diogelu. Yn y rhan fwyaf o'r achosion a archwiliwyd, cyflawnodd swyddogion wiriadau 'saff a diogel' yn brydlon (i wirio diogelwch uniongyrchol) wedi dod o hyd i blentyn coll, er mai ychydig iawn o wybodaeth oedd yn rhai o'r cofnodion. Gwelodd arolygwyr nad oedd cyfweliadau dychwelyd annibynnol[11] ar gyfer plant ar goll o

[11] Pan fydd plentyn yn cael ei ganfod, rhaid cynnig cyfweliad dychweliad annibynnol i'r plentyn. Mae cyfweliadau dychweliad annibynnol yn gyfle i ddatgelu gwybodaeth allai helpu diogelu plant sydd dan risg o fynd ar goll eto, rhag risgiau y gallant fod wedi cael eu hamlygu iddynt tra'u bod ar goll neu o ffactorau risg yn eu cartref. Ceir rhagor o wybodaeth yn y *Statutory guidance on children who run away or go missing from home or care*, Adran Addysg, Ionawr 2014, ar gael o'r ddolen ganlynol: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/307867/Statutory_Guidance_-_Missing_from_care__3_.pdf

gartref (a allai fod wedi eu darparu gan elusen plant) yn digwydd pob tro. Gall cyfweliadau gyda phlant yn ystod y cam hwn ddarparu llu o wybodaeth am y rhesymau pam eu bod yn rhedeg i ffwrdd, yn arbennig ble mae hyn yn fwy cyson ac mae'r plentyn yn anfodlon i siarad â'r heddlu neu asiantaethau eraill.

Gwelodd arolygwyr hefyd nad oedd swyddogion yn cydnabod pob tro bod plant sy'n mynd ar goll o gartref yn rheolaidd dan risg o gael eu paratoi ar gyfer cam-drin rhywiol. Mewn chwech o'r wyth o achosion ar goll o gartref a aseswyd gan arolygwyr, roedd arwyddion y gallai plant oedd ar goll fod dan risg o gamfanteisio rhywiol. Er i arolygwyr weld tystiolaeth o ymgysylltu sensitif gyda phlant, roedd hyn yn aml yn canolbwyntio ar y digwyddiad mwyaf diweddar yn hytrach nag ystyried gwybodaeth a gedwir gan yr heddlu am ddigwyddiadau blaenorol. Er enghraifft:

roedd merch 13 oed wedi ei hadrodd i fod ar goll dros 40 o weithiau ers 2008 ac roedd yn hysbys ei bod yn arddangos ymddygiad o natur rywiol. Dynododd cofnodion yr heddlu o 2012 bod y ferch wedi bod yn siarad â dyn nad oedd yn ei adnabod ar y rhyngrwyd oedd wedi dinoethi ei hun iddi. Ni chynhaliwyd trafodaeth strategaeth, ac ni ystyriwyd cynllun diogelu tymor hirach i'w diogelu rhag niwed.

roedd merch 16 oed wedi ei hadrodd i fod ar goll ar sawl achlysur o ofal awdurdod lleol. Roedd wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gyda phlant eraill a dynion hŷn yn flaenorol (cofnodwyd ers 2011). Nid oedd y ferch wedi ei 'llumanu' fel un dan risg o gamfanteisio rhywiol tan Chwefror 2015, ac nid oedd cynllun wedi ei sefydlu i ddelio â phroblemau hirdymor.

Mae Heddlu De Cymru yn cyfeirio achosion cam-drin domestig sydd wedi eu hasesu i fod yn 'risg uchel' i gynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC) ar gyfer sefydlu cynlluniau diogelu tymor hirach. Edrychodd arolygwyr ar gofnodion MARACs ac asesu chwe achos yn ymwneud â phlant. Roedd presenoldeb da mewn MARACs o gynrychiolwyr uwch o'r heddlu yn ogystal ag o ystod eang o asiantaethau. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd i ddiogelu dioddefwyr ac unrhyw blant sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig, Sefydlwyd mesurau diogelu uniongyrchol ar gyfer plant oedd yn byw mewn teuluoedd gyda risg uchel o gam-drin domestig, megis y rhai gyda 'llumanau' ac ar 'wyliadwriaeth yr heddlu' (ble roedd swyddogion cymdogaeth lleol yn ymweld yn gyson â dioddefwyr bregus). Fodd bynnag, yn rhai o'r achosion a archwiliwyd, ni chynhaliwyd trafodaethau strategaeth cyn y cyfarfod MARAC. Gallai hyn adael plant mewn perygl oherwydd na rannwyd gwybodaeth ac oherwydd oedi o ran gweithredu ar y cyd posibl. Mewn rhai ardaloedd, roedd mesurau gwarchodol yn dibynnu'n gyfan gwbl ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn hytrach na'r holl asiantaethau perthnasol yn gwneud cyfraniad, megis swyddogion yr heddlu yn cyflawni ymweliadau cartref ar y cyd gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Argymhelliad

Rydym yn argymell bod Heddlu Cymru yn cymryd camau ar unwaith i wella ymarfer mewn achosion o blant sy'n mynd ar goll o gartref. Fel isafswm, dylai hyn gynnwys:

- gwella ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant a adroddir i fod ar goll o gartref ac, yn benodol, yr achosion hynny ble mae'n ddigwyddiad rheolaidd;
- gwella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sy'n mynd ar goll o gartref a'r risg o gamfanteisio rhywiol;
- gwella ymwybyddiaeth staff o arwyddocâd dwyn yr holl wybodaeth sydd ar gael o systemau'r heddlu ynghyd, gan gynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n cyflwyno risg i blant, er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o asesiadau risg;
- sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r angen i basio'r wybodaeth hon ymlaen at asiantaethau eraill; a
- nodi'r ystod o ymatebion a chamau y gall yr heddlu gyfrannu i gynlluniau amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yn yr achosion hyn.

Ymchwiliad

Gwelodd arolygwyr rai enghreifftiau da iawn o waith diogelu plant gan yr heddlu, gydag ymchwilwyr cam-drin plant yn arddangos cyfuniad da o ymagweddau ymchwilio ac amddiffyn. Roedd hyn yn sicrhau fod diogelu plant yn dal yn ganolog i'w hymdrechion wrth iddynt fynd ar drywydd cyfleoedd ymchwilio. Er enghraifft, mynychodd yr heddlu gartref tri o blant 10, 14 a 15 oed yn dilyn pryderon o esgeuluso. Aethpwyd â'r plant i ddiogelwch yr heddlu ac arestio'r fam. Roedd yn drosolwg goruchwyliol da wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen. Datblygwyd cydweithio a chynlluniau diogelu tymor hir effeithiol gydag asiantaethau eraill.

Roedd ymchwiliadau gan dimau ymchwilio cam-drin plant yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, dywedwyd wrth arolygwyr bod gwaith swyddogion diogelu plant yn rhai o'r unedau rheoli sylfaenol anodd i'w rheoli oherwydd llwyth gwaith gormodol. Felly hefyd, roedd rhywfaint o drosolwg goruchwyliol dda, ond nid oedd hyn yn gyson oherwydd llwyth gwaith gormodol goruchwylwyr. Nododd yr arolygwyr bod diffyg goruchwyliaeth mewn nifer o achosion wedi cyfrannu at oedi yn yr ymchwiliad. Roedd hyn yn fwy amlwg mewn unedau rheoli sylfaenol prysurach fel Caerdydd ble mae mwy o alw. Adroddodd staff anawsterau wrth reoli disgwyliadau dioddefwyr, a bod eu gallu i roi gwybodaeth a chanllaw i deuluoedd a phlant ar beth fyddai'n digwydd nesaf yn gyfyngedig. Dywedodd swyddogion wrth yr arolygwyr bod oedi yn effeithio'n andwyol ar hyder teuluoedd a phlant yn yr heddlu.

Gwelsom hefyd rai achosion difrifol – er enghraifft, trais a throseddau rhywiol eraill – yr oedd swyddogion nad ydynt yn arbenigol wedi delio â nhw ac oedd o safon is gyda rhywfaint o lithro mewn ymchwiliadau. Er enghraifft:

- achos yn ymwneud â threisio merch 15 oed gan ddisgybl yn ei hysgol. Roedd yr ymateb cychwynnol yn dda, ond ni chafodd y ferch ei chyfweld am bum mis wedi'r adroddiad cyntaf. Ni chafodd yr unigolyn dan amheuaeth ei arestio am ddau fis arall ac, ar adeg yr archwiliad, roedd yn dal ar fechnïaeth.

- honnodd merch 16 oed ei bod wedi cael ei threisio gan ei chyn gariad. Roedd yr ymateb cychwynnol yn dda; fodd bynnag, cofnododd y swyddog oedd yn ymchwilio bod oedi o ran ymholiadau o ganlyniad i lwyth gwaith gormodol. Gofynnodd y swyddog am gymorth atodol ar sawl achlysur, ond ni ddarparwyd hyn. Ni chynhaliwyd trafodaeth strategaeth er gwaethaf pryderon ehangach am ymddygiad o natur rywiol y ferch.

Dywedodd staff wrth yr arolygwyr hefyd bod oediadau o hyd at chwe mis yn gyffredin mewn achosion a anfonwyd at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar adolygiad a phenderfyniadau erlyn. Roedd tystiolaeth bod uwch swyddogion wedi ymyrryd mewn ymgais i wella prydlondeb gwneud penderfyniadau ac yn gweithio tuag at ddatrysiad gyda'r CPS. Er bod hyn wedi gwella, mae yna heriau o hyd o ran prydlondeb penderfyniadau mewn rhai achosion. Fe archwiliom nifer o achosion ble nad oedd oediadau o dros dri mis yn anghyffredin. Er enghraifft, cyflwynwyd un ffeil achos yn ymwneud â esgeulustod o dri o blant bach i'r CPS ym Medi 2014, ond ni chafwyd penderfyniad tan Chwefror 2015, chwe mis wedi'r adroddiad cychwynnol.

Roedd Heddlu De Cymru wedi cydnabod yr angen i wella ei ymateb i daclo camfanteisio ar blant yn rhywiol ond, ar adeg yr archwiliad, roedd ymateb yr heddlu yn dal yn adweithiol yn bennaf. Nid oedd gan yr heddlu dîm arbenigol ymroddedig i daclo camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac roedd achosion yn cael eu hymchwilio gan dditectifs cam-drin plant yn yr unedau diogelu'r cyhoedd neu gan dimau nad ydynt yn arbenigol. Archwiliodd arolygwyr 16 o achosion yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a chanfod 8 i fod yn annigonol. Roedd arfer gwael yn fwy gweladwy yn yr unedau rheoli sylfaenol Dwyrain a Chanolog, oedd yn gyfrifol gyda'i gilydd am chwech (tri yr un) o'r achosion a raddiwyd i fod yn annigonol. Yn y rhan fwyaf i'r achosion a aseswyd, roedd y mesurau diogelu uniongyrchol yn dda, ond yn aml roedd methiant i nodi'r risgiau ehangach. Er enghraifft:

achos yn ymwneud â merch 15 oed ble'r oedd dynion wedi camfanteisio arni'n rhywiol dros gyfnod o 4 mlynedd. Roedd dros 40 o ffurflenni diogelu plant wedi eu cwblhau, ac er yr ystyriwyd dull amlasiantaethol i'w diogelu'n uniongyrchol, ni chyflawnwyd unrhyw ymchwiliad i nodi pwy oedd yn dynion ac i ddiogelu plant eraill.

cafodd disgyblion mewn ysgol eu denu i gyhoeddi delweddau rhywiol amhriodol ohonynt eu hunain ar gyfryngau cymdeithasol. Cysylltodd yr heddlu ag un ferch nad oedd eisiau mynd ar drywydd y cyhuddiad ac fe gaewyd y mater. Er gwaethaf y ffaith

bod ganddynt gyfeiriad e-bost y sawl a amheuwyd, ni chyflawnwyd ymchwiliad pellach i'w nodi, ac ni ystyriwyd y risgiau ehangach i blant eraill.

Deliwyd yn dda ag ymchwiliadau i gam-drin plant ar y rhyngrwyd, ac o'r chwe achos a archwiliwyd gan arolygwyr, cafodd pedwar eu hasesu i fod yn dda, un fel angen gwelliant ac un fel annigonol oherwydd na cheisiwyd nodi na lleoli yr unigolyn a amheuwyd nac ystyried y risgiau ehangach i blant eraill. Roedd yr heddlu wedi cydnabod yr angen i wella ei allu i chwilio'n rheolaidd am blant oedd yn cael eu cam-drin neu gamfanteisio arnynt ar-lein ac yn bwriadu creu uned benodol ar gyfer troseddau seiber.

Canfuom bod swyddogion adrannol yn archwilio'r rhan fwyaf o ffonau symudol a thabledi. Roedd y dull hwn yn addawol o bosibl fel modd o gyflymu ymchwiliadau a lleihau oedi. Fodd bynnag, nid oedd gan nifer ohonynt wybodaeth arbenigol ac nid oeddynt yn gwybod am y newidiadau a datblygiadau diweddaraf mewn technoleg, a fyddai o bosibl yn peryglu cyfleoedd i gasglu tystiolaeth. Gallai hyn gael effaith andwyol ar ganlyniad ymchwiliad neu erlyniad.

Argymhelliad

Argymhellwn, o fewn tri mis, fod Heddlu De Cymru yn gweithredu i wella ymchwiliadau diogelu plant trwy sicrhau, fel isafswm:

- bod pob atgyfeiriad a dderbynnir gan yr heddlu wedi ei neilltuo i dîm gyda'r sgiliau, y gallu a'r gymhwyster i gyflawni'r ymchwiliad;
- bod ymchwiliadau yn cael eu goruchwylio a monitro ac, ym mhob gwiriad, bod y goruchwyliwr yn adolygu'r dystiolaeth ac yn nodi unrhyw ymholiadau pellach/casglu tystiolaeth sydd angen ei wneud;
- nes bydd y newidiadau hyn wedi eu mewnosod, dylai'r heddlu gynnal adolygiadau rheolaidd o ymarfer sy'n cynnwys ansawdd ac amseroldeb ymchwiliadau; ac
- y cymerir camau pellach gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro a gwella amseroldeb adolygiadau achosion a phenderfyniadau cyhuddo.

Gwneud penderfyniadau

Roedd ymateb yr heddlu yn dda pan oedd yr achos wedi ei ddiffinio'n glir fel mater diogelu plentyn o'r cychwyn. Aseswyd atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill yn brydlon, gan roi ystyriaeth i'r gefnogaeth y gallai asiantaethau eraill ddarparu. Roedd sawl enghraifft o wneud penderfyniadau effeithiol i ddiogelu plant. Deliodd swyddogion â digwyddiadau yn dda pan oedd pryderon arwyddocaol am ddiogelwch plant, megis rhieni yn gadael plant adref eu hunain neu'n feddw wrth ofalu amdanynt.

Mae'n gam difrifol iawn i fynd â phlentyn o ofal ei deulu trwy ddiogelwch yr heddlu[12] ac, yn yr achosion a archwiliwyd, roedd penderfyniadau i fynd â'r plentyn i le diogel wedi eu hystyried yn ofalus ac er lles y plentyn.

Ac eithrio achosion yn ymwneud â phlant sydd dan risg o gamfanteisio'n rhywiol a mynd ar goll o adref, roedd yna dystiolaeth glir i staff rheng flaen wneud penderfyniadau effeithiol yn ystod camau cynnar materion amddiffyn plentyn. Fe gymeront gamau i amddiffyn, cofnodi'r wybodaeth yn gywir a'i hanfon yn brydlon i'r uned gyfeirio neu MASH briodol. Fe aseswyd yr wybodaeth hon gan oruchwylwyr amddiffyn plant hyfforddedig arbenigol a wnaeth benderfyniadau gwybodus ac amserol ynghylch atgyfeiriadau a thrafodaethau strategaethau. Fe gychwynnont ymchwiliadau yn brydlon a sicrhau y cynhwyswyd asiantaethau eraill. Roedd y cofnodi ar systemau'r heddlu o safon dda yn gyffredinol. Canfu'r arolygwyr bod dogfennau perthnasol megis cofnodion cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos cychwynnol yn cael eu hatodi i gofnodion fel mater o drefn, er fel y nodwyd yn flaenorol, roedd oedi achlysurol wrth wneud hyn.

Canfu arolygwyr arfer da cyson ar draws yr heddlu parthed rheoli risg ar sail ddyddiol ar gyfer materion amddiffyn plant uniongyrchol a brys. Ystyriwyd y cyfarfod rheoli dyddiol yn benodol i fod yn effeithiol iawn ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau da.

Oedolyn dibynadwy

Pan oedd pryder yn ddifrifol ac wedi ei gydnabod ar unwaith fel mater amddiffyn plant, fe ystyriwyd yr ymagwedd i'r plentyn neu rieni (neu weithiwr cymdeithasol os mai'r rhiant a ddrwgdybiwyd) yn ofalus, ac fe archwiliwyd y ffordd orau i ymgysylltu â'r plentyn. Arweiniodd y dull sensitif hwn at sefydlu perthynas gryfach rhwng y plentyn a'r heddlu. Er enghraifft:

achos a gyfeiriwyd gan ysgol bod merch 13 oed wedi ei cham-drin yn rhywiol gan ei hewythr 39 oed. Ymwelodd yr heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant â'r ferch ar y cyd. Siaradwyd â'r ferch a chytunwyd ar gamau diogelu. Cafodd y sawl a amheuwyd ei arestio a'i gyhuddo. Trwy gydol yr achos roedd cefnogaeth barhaus gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac ysgol y ferch a drefnodd gynghori parhaus.

- galwad frys i ddigwyddiad domestig yn ymwneud â bachgen 10 oed. Daeth swyddogion o hyd iddo yn byw mewn amgylchiadau brwnt ac, er gwaethaf gwrthwynebiadau ei fam, fe fynnont siarad â'r plentyn i wneud asesiad o'i les. Roedd swyddogion yn pryderu am ei ddiogelwch uniongyrchol, ac fe

[12] Mae Adran 46(1) o Ddeddf Plant 1989 yn grymuso swyddog yr heddlu, sydd ag achos rhesymol i amau y byddai plentyn fel arall yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, i (a) fynd â'r plentyn i lety addas a chadw'r plentyn yno neu (b) gymryd unrhyw gamau rhesymol i sicrhau yr atalir ymgais i symud plentyn o unrhyw ysbyty, neu le arall ble mae'r plentyn yn cael ei letya ar y pryd.

aethpwyd ag ef i amddiffyn yr heddlu a chychwyn ymchwiliad diogelu ar y cyd. Trwy gydol yr ymchwiliad, cofnodwyd barnau'r plentyn a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau. Derbyniodd y fam rybudd am esgeulustod a rhoddwyd y bachgen ar y gofrestr amddiffyn plant. Ar adeg yr ymchwiliad, roedd yn byw gyda'i fam-gu a thad-cu ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth amlasiantaethol.

Nid oedd ymgysylltu da yn gyfyngedig i ymchwilwyr arbenigol, ac roedd arolygwyr yn falch i weld ymroddiad yr heddlu i ymgysylltu gydag a meithrin ymddiriedaeth mewn plant yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd trwy swyddogion cyswllt ysgolion[13] penodedig oedd yn effro i ac yn ymatebol i risg.[14]

Canfu'r arolygwyr nifer o achosion ble roedd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn amlwg yn ystyried barnau ac anghenion plant, ond ychydig iawn o wybodaeth oedd yn y rhan fwyaf o ffeiliau achos ar farnau'r plentyn, effaith y materion yn yr achos ar y plentyn neu ganlyniadau ymyrraeth gan yr heddlu i'r plentyn.

Gwelsom hefyd na roddwyd ystyriaeth ddigonol i blant dan risg o gamfanteisio arnynt yn rhywiol a'r rhai a aeth ar goll o adref. Mae'r enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad yn arwydd o ymateb isddatblygedig i'r achosion hyn.

Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai Heddlu De Cymru, o fewn chwe mis, sicrhau:

- bod staff yn cofnodi barnau a phryderon plant;
- bod staff yn cofnodi'r canlyniad ar gyfer y plentyn ar ddiwedd ymwneud yr heddlu mewn achos;
- bod staff yn hysbysu plant, fel fo'n briodol, o unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd amdanynt; ac
- y darperir gwybodaeth am anghenion a barnau plant, ar sail reolaidd, ar gyfer ystyriaeth gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu ac i reolwyr gwasanaeth i hysbysu arfer yn y dyfodol.

---

[13] Swyddog yr heddlu sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion, staff a disgyblion i hyrwyddo perthynas dda rhwng yr ysgol a gwasanaeth yr heddlu, gyda'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth ac ataliaeth gynnar.

[14] Mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn raglen atal troseddu a ariennir ar cyd gan Lywodraeth Cymru a phedwar heddlu Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar y rhaglen mewn adolygiad ohoni a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 ac sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/all-wales-school-liaison-core-programme-evaluation-report/?skip=1&lang=cy

Rheoli'r rhai sy'n cyflwyno risg i blant

Roedd cyfarfodydd amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ar gyfer troseddwyr rhyw cofrestredig yn gyffredinol dda gyda phresenoldeb dda gan yr asiantaethau. Nodwyd risgiau i blant a sefydlu cynlluniau. Archwiliodd yr arolygwyr gofnodion o'r cyfarfodydd diweddaraf ac asesu pump achos i fod yn dda, un yn ddigonol a dau fel angen gwelliant.

Mae gan Heddlu De Cymru uned benodedig – yr uned troseddwyr rhyw a pheryglus – i reoli troseddwyr rhyw cofrestredig. Canfu arolygwyr fod gwybodaeth wedi ei thrin yn dda a bod cynlluniau i reoli risgiau yn gymesur a chyfredol. Roedd yr uned yn delio â llwyth achosion yn unol â'r gymhareb ar gyfer rheolwyr troseddwyr rhyw a argymhellir gan ganllaw cenedlaethol[15]. Roedd ymweliadau monitro i wirio bod troseddwyr rhyw cofrestredig yn cadw at eu gofynion cofrestru yn amserol. Fodd bynnag, ychydig o ddarpariaeth oedd ar gael i gyflawni gwaith gwyliadwriaeth rhagweithiol o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o droseddwyr rhyw sydd angen goruchwyliaeth.

Roedd staff yn gweithio yn y tîm yn glir o ran eu cyfrifoldebau, yn gyffredinol yn cyflawni ymholiadau prydlon a manwl, yn asesu risg yn dda ac yn gweithredu i'w leihau. Fe ddefnyddiont eu grymoedd i arestio'r rhai nad oeddynt wedi cadw at eu amodau cofrestru neu ofynion eraill, megis gwaharddiadau ar gyswllt a phlant. Er enghraifft:

- roedd cofrestrydd rhyw cofrestredig wedi methu â rhoi gwybod i'r heddlu am ei gyfeiriad newydd. Cynhaliodd swyddogion ymholiadau prydlon a chanfod bod y troseddwr hefyd yn cael mynediad heb oruchwyliaeth i'w wyres wyth oed. Sefydlwyd ymchwiliad trylwyr gyda mesurau diogelu priodol gan oruchwylwyr, a chynnal ymweliad ar y cyd â theulu'r plentyn y noson honno gyda gwasanaethau cymdeithasol plant. Cafodd y troseddwr ei arestio, ei gyhuddo ac yna ei garcharu.

Gwelsom gysylltiadau da rhwng yr uned troseddwyr rhyw a pheryglus a'r timau plismona cymdogaeth[16]. Cafodd swyddogion wybod am droseddwyr rhyw cofrestredig yn byw yn eu hardal trwy ddiweddariadau gwybodaeth rheolaidd yn darparu gwybodaeth fanwl ar y rhai sy'n cyflwyno risg i blant.

---

[15] Rheolir troseddwyr rhyw cofrestredig dan drefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA). Cyhoeddwyd canllaw cenedlaethol ar y trefniadau hyn yn 2012: MAPPA Guidance 2012, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gael o www.justice.gov.uk/downloads/offenders/mappa/mappa-guidance-2012-part1.pdf

[16] Tîm o swyddogion yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sy'n patrolio yn bennaf ac wedi eu neilltuo i blismona cymuned leol benodol. Mae timau yn aml yn cynnwys swyddogion arbenigol a staff gydag arbenigedd mewn atal troseddau, diogelwch cymunedol, trwyddedu, cyfiawnder adferol ac ymgysylltu ag ysgolion.

Gan gydnabod yr angen am well trefniadau i ddelio â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'r heddlu wedi cymryd camau i adolygu ei brosesau ac adnoddau wedi alinio i ddiogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad, fe ganfuom nad oedd digon o staff gyda gwybodaeth arbenigol a dealltwriaeth dda o dactegau amhariad i nodi ac atal troseddwyr. Mae'r heddlu wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, megis cyflwyno llumanau i'w gosod ar gofnodion plant dan risg o gamfanteisio, ond nid yw hyn wedi ei ymestyn i droseddwyr eto (er ein bod wedi cael gwybod bod hyn yn cael ei ddatblygu).

Yn ddiweddar roedd yr heddlu wedi datblygu 'offeryn asesiad bregusrwydd' i alluogi swyddogion i nodi plant allai fod dan risg o gamfanteisio rhywiol a throseddwyr sy'n cyflwyno risg iddynt. Er bod casglu tystiolaeth a thactegau i wella gorfodi ac amharu ar droseddwyr wedi gwella yn y misoedd yn arwain at yr archwiliad, mae cryn dipyn y mae angen i'r heddlu ei wneud o hyd i ddeall a thaclo camfanteisio'n rhywiol ar blant yn effeithiol yn ei gymunedau.

Argymhelliad

> Rydym yn argymell bod Heddlu De Cymru, o fewn chwe mis, yn gwerthuso effaith ei fuddsoddiad mewn taclo camfanteisio'n rhywiol ar blant – yn benodol, i ba raddau mae'r dulliau newydd yn arwain at wella ymchwiliadau, gwella cynlluniau amddiffynnol, ac amhariad i droseddwyr, ac wedi hynny yn gweithredu canlyniadau y gwerthusiad hwnnw gyda'r bwriad o wella ymarfer.

Cadw gan yr heddlu

Archwiliodd yr arolygwyr 16 achos o blant yn y ddalfa. Roedd yr ieuengaf yn 14 oed a'r hynaf yn 17. Roedd 14 o'r plant yn fechgyn a dwy yn ferched. Roeddynt wedi eu cadw ar amheuaeth o droseddau oedd yn cynnwys byrgleriaeth, difrod troseddol ac ymosodiad. Roedd pedwar o'r plant wedi eu cadw dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Barnodd yr arolygwyr fod chwech o'r achosion yn ddigonol tra bod deg angen gwelliant.

Fe hunanasesodd Heddlu De Cymru dri o'r achosion hyn, oll yn ymwneud â bechgyn. Fe asesont un i fod yn dda a dau i fod yn ddigonol. Asesodd yr arolygwyr y tri ohonynt i fod angen gwelliant.

Yn y 12 achos troseddol a archwiliwyd gan arolygwyr, cyhuddwyd pob un o'r plant a gwrthod mechnïaeth iddynt gan ringyll y ddalfa. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu llety priodol os oes angen cadw plentyn dros nos.[17] Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol (megis yn ystod tywydd eithafol) gellid

[17] Dan adran 38(6) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, rhaid i swyddog cystodaeth sicrhau y symudir plentyn i lety awdurdod lleol oni bai ei fod yn ardystio nad yw'n ymarferol i wneud hynny neu, i'r rhai sy'n 12 oed neu'n hŷn, nid oes llety diogel ar gael ac ni fyddai llety awdurdod lleol yn briodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol ganddo.

dweud nad yw trosglwyddo'r plentyn i lety amgen er lles y plentyn. Mewn achosion prin – er enghraifft, os yw'r plentyn wedi cyflwyno risg uchel o niwed difrifol i eraill – efallai y bydd angen llety diogel.

Yn yr achosion a archwiliwyd gan arolygwyr, ni chafodd yr un o'r plant a gadwyd dros nos eu trosglwyddo i ofal yr awdurdod lleol. Mewn pump o'r achosion, roedd cofnodion y ddalfa yn dangos na wnaethpwyd cais i'r awdurdod lleol am lety wedi penderfynu gwrthod mechnïaeth. Mewn rhai achosion, nododd arolygwyr bod hyn oherwydd i staff y ddalfa dybio na fyddai llety ar gael heb geisio cadarnhad o hyn.

Mae tystysgrifau dalfa, sy'n amlinellu i'r llys y rheswm dros gadw yn y ddalfa, yn allweddol ar gyfer atebolrwydd yr heddlu ac i alluogi heddluoedd i fonitro pa mor dda maent yn wneud o ran eu cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Roedd pedwar achos ble na chwblhawyd tystysgrif dalfa.

Mae Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl1983 yn caniatáu i swyddog yr heddlu symud unigolyn sy'n ymddangos i fod â salwch meddwl o le cyhoeddus i le diogel. Er y gall lle diogel gynnwys ystafell ddalfa yr heddlu, dylid defnyddio'r rhain mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a byddai'n well mynd â'r unigolyn yn syth i gyfleuster gofal iechyd megis ysbyty[18]. Aethpwyd a bron i hanner (12 achos) plant a gadwyd dan y pŵer hwn yn Ne Cymru i ystafelloedd y ddalfa'r heddlu yn 2013-14 o gymharu â chwarter (5 achos) yn 2012-13. Er bod y niferoedd yn gymharol isel, mae hyn fodd bynnag yn cynrychioli tuedd ar i fyny mewn plant yn cael eu cadw dan y pŵer hwn mewn gorsafoedd heddlu.

Darparwyd gwasanaethau gan ymarfer gofal iechyd i rai a gadwyd yn ystafelloedd y ddalfa trwy gydol ardal yr heddlu 24 awr y dydd. Roedd yno hefyd nyrs iechyd meddwl ymroddedig i gefnogi plant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl.

Fodd bynnag, roedd arolygwyr yn pryderu am achos yn ymwneud â merch 15 oed gyda hanes o hunan-niweidio a defnydd o gyffuriau. Roedd yn dreisgar pan y'i cadwyd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac wedi cyrraedd ystafelloedd y ddalfa cofnodwyd y byddai rhywun yn ei gwirio yn ei chell pob 30 munud. Ym mhob gwiriad, cofnododd staff ei bod yn gweddi a sgrechian arnynt. Fe'i gwelwyd gan y nyrs chwe awr wedi iddi gyrraedd, ond nid oed dy nyrs yn gallu cwblhau asesiad oherwydd ei hymddygiad treisgar. Am hanner nos, gofynnodd y nyrs i oedolion priodol fynychu, ond ni chysylltwyd ag un tan 10am y bore wedyn. Aseswyd y plentyn eto gan y nyrs am hanner dydd a gofynnodd am asesiad iechyd meddwl llawn a gyflawnwyd am 3pm. Yna cafodd ei throsglwyddo i gyfleuster iechyd meddwl am 6pm – 24 awr wedi iddi gyrraedd dalfa'r heddlu. Ni chofnodwyd rheswm dros gadw'r plentyn cyhyd, er ei fod yn amlwg bod y sefyllfa wedi cynyddu ei gofid.

---

[19] *Code of Practice: Mental Health Act 1983*, Adran Iechyd, 2008, paragraff 10.21, ar gael trwy'r ddolen hon: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130123193537/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_084597

Dywedodd staff y ddalfa wrth yr arolygwyr nad oeddynt wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nid oedd gwybodaeth arwyddocaol am blant, megis risgiau o gamfanteisio'n rhywiol neu a oedd plentyn yn destun cynllun amddiffyn plentyn, ar gael i staff y ddalfa ychwaith. Adolygodd yr arolygwyr y cynllun hyfforddiant gloywi cystodaeth diweddaraf a gweld nad oedd cyfeiriad at gamau i'w cymryd pan amheuwyd pryderon amddiffyn plant neu pan oeddynt yn amlwg.

Argymhelliad

Argymhellwn fod Heddlu De Cymru, o fewn tri mis, yn cyflawni adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill) o sut mae'n rheoli cadw plant. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm, y ffordd orau o:

- sicrhau bod plant yn cael eu cadw dim ond ble fo'n gwbl angenrheidiol ac am yr isafswm amser yn unig;
- asesu a hynny'n fuan, yr angen am lety amgen, (diogel neu beidio) ac i weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni'r opsiwn gorau i'r plentyn;
- sicrhau bod staff y ddalfa yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol i gwblhau tystysgrifau dalfa os yw plentyn yn cael ei gadw am unrhyw reswm yn nalfa'r heddlu yn dilyn cyhuddiad;
- sicrhau bod staff y ddalfa yn creu cofnod o'r holl gamau a gymerwyd a phenderfyniadau a wnaethpwyd ar y ddogfennaeth berthnasol;
- sicrhau fod plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu fel mesur pan fetho popeth arall, am yr isafswm amser;
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth atodol i ddefnyddio aelodau teulu fel oedolion priodol ar gyfer plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac yr anogir cefnogaeth rieniol a phresenoldeb bersonol yn ystafelloedd y ddalfa; a
- gwella ymwybyddiaeth ymysg staff y ddalfa o amddiffyn plant (yn cynnwys y risg o gamfanteisio rhywiol), y safon o asesiad risg sydd angen i adlewyrchu anghenion plant, a'r gefnogaeth sydd angen wrth gadw ac ar ryddhau.

5. Casgliadau: arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

Mae amddiffyn pobl agored i niwed nawr yn flaenoriaeth i'r heddlu a'r comisiynydd yr heddlu a throseddu ac fe adlewyrchir hyn yn y cynllun heddlu a throseddu.[19] Mae gan y prif gwnstabl, ei dîm rheoli a'r Comisiynydd oll ymroddiad cryf i amddiffyn plant. Maent yn cyflawni adolygiad o wasanaethau diogelu'r cyhoedd ar hyn o bryd, gan ategu awydd yr heddlu i wella ymarfer amddiffyn plant ymhellach.

Roedd arolygwyr yn falch i weld buddsoddiad yr heddlu mewn gwella ymarfer amddiffyn plant trwy sefydlu rôl newydd rheolwr amddiffyn pobl fregus. Mae'r rheolwr yn cydlynu a dosbarthu'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant[20]. Gwnaethpwyd gwelliannau o ganlyniad i ddigwyddiadau dysgu amlasiantaethol (fel y gofyniad i gynnwys cofnodion cynadleddau achosion amddiffyn plant cychwynnol yng nghofnodion yr heddlu). Gweithredwyd argymhellion o'r adolygiadau a monitro cynnydd trwy gyfarfod troseddu a diogelu'r heddlu (cyfarfod llywodraethu ar gyfer materion diogelu'r cyhoedd, yn cynnwys amddiffyn plant), dan gadeiryddiaeth y prif gwnstabl cynorthwyol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Roedd arweinyddiaeth weladwy ar amddiffyn plant ar bob lefel yn yr heddlu, yn cynnwys yn nhimau rheoli yr uned reoli sylfaenol ble cydnabuwyd bod amddiffyn plant yn flaenoriaeth. Gwelsom enghreifftiau o arweinwyr yr heddlu yn arddangos ymwybyddiaeth frwd o bwysigrwydd amddiffyn plant bregus. Cafodd hyn effaith bositif ar staff gweithredol ac fe ystyriai'r arolygwyr iddo fod yn allweddol o ran sefydlu arferion diogelu ble mae'r plentyn yn ganolog ar y rheng flaen.

Canfu arolygwyr bod gwahanol lefelau o adnoddau a galwadau yn y timau cam-drin plant wedi arwain at rywfaint o anghysondebau mewn ymarfer ar draws ardal yr heddlu (er enghraifft, presenoldeb mewn cynadleddau achos, a thimau nad ydynt yn arbenigol yn ymchwilio i achosion amddiffyn plant). Mae'r adolygiad amddiffyn y cyhoedd sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd yn gyfle i'r heddlu baru adnoddau'n well i'r galw ac i gynllunio gwasanaethau i sicrhau cysondeb safonau ymarfer da ar draws ardal yr heddlu i fodloni anghenion plant bregus.

---

[19] Mae Cynllun yr heddlu a throseddu De Cymru ar gyfer 2014-17 ar gael ar y ddolen hon: www.southwalescommissioner.org.uk/Document-Library/Plan-Related/Plan-2014-17---FINAL-version.pdf

[20] Cyflawnir adolygiad ymarfer plant amlasiantaethol mewn amgylchiadau o ddigwyddiad arwyddocaol ble mae gwybodaeth neu amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plentyn. Sefydlir y meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer plant yn y Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 (gweler troednodyn 6, uchod), fel y'i diwygiwyd 2012, 2012 Rhif 1712 (W. 222) ar gael o'r ddolen ganlynol: www.legislation.gov.uk/wsi/2012/1712/contents/made.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r heddlu yn gweithredu unedau cyfeirio mewn tri o'i bedair uned rheoli sylfaenol ac wedi sefydlu MASH yn ddiwedd yn uned y Gogledd. Gwelodd yr arolygwyr rywfaint o dystiolaeth o weithio rhyngasiantaethol yn MASH y Gogledd. Er bod hyn yn y camau cyntaf o ddatblygiad, ac ar adeg yr archwiliad nid oedd staff gofal cymdeithasol plant wedi eu lleoli'n llawn gyda'r heddlu, roedd yn amlwg bod yr amgylchedd hwn yn galluogi swyddogion, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd i drafod achosion yn brydlon ac i bennu'r dull gweithredu gorau ar gyfer plant. Roedd yr heddlu yn ystyried datblygu canolfannau amlasiantaethol pellach gydag asiantaethau partner.

Trwy gydol yr archwiliad, roedd yn amlwg bod staff sy'n gyfrifol am gyflawni ymchwiliadau cam-drin plant yn wybodus, ymroddedig ac yn awyddus i ddarparu canlyniad da i blant a nodwyd i fod dan risg o niwed. Cafodd yr holl staff amddiffyn plant eu hyfforddiant yn, neu maent yn y broses o gwblhau, y rhaglen ddatblygu ymchwilydd cam-drin plant arbenigol.

Roedd yr heddlu wedi buddsoddi amser ac adnoddau mewn hyfforddi swyddogion rheng flaen, ac roedd gan y rhai y siaradodd yr arolygwyr â nhw ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu, a phryd a sut i gyfeirio digwyddiadau i'r MASH neu'r uned gyfeirio berthnasol. Nododd yr arolygwyr hefyd effeithiolrwydd y broses cyfarfod rheoli dyddiol ar gyfer asesu a rheoli risg. Roedd y pecyn gwybodaeth yn cefnogi'r cyfarfod yn darparu gwybodaeth ar blant bregus dan risg o niwed a throseddwyr rhyw penodol mewn ardaloedd lleol. Roedd goruchwylwyr yn neilltuo tasgau, olrhain gweithgaredd a symud adnoddau i fodloni blaenoriaethau'r dydd.

Roedd Heddlu De Cymru yn y broses o ddatblygu ymateb strategol a gweithredol i daclo camfanteisio'n rhywiol ar blant, ond roedd yr ymateb wedi bod yn araf i'w ddatblygu, ac ychydig iawn o dystiolaeth a welodd yr arolygwyr o ymarfer effeithiol. Fodd bynnag, roeddem yn falch i weld bod yr heddlu, ynghyd â'r comisiynydd yr heddlu a throseddu ac asiantaethau partner, yn cymryd camau i wella trefniadau. Roedd yr heddlu wedi comisiynu adolygiad cyfoedion Coleg Plismona[21] ac yn datblygu proffil problemau i wella dealltwriaeth o natur a helaethrwydd camfanteisio'n rhywiol yn ei ardal ac i wella'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd yr heddlu hefyd wedi darparu hyfforddiant bellach i staff rheng flaen – sydd nawr angen ei ymestyn i staff y ddalfa. Anogwyd arolygwyr gan y datblygiadau hyn ond ar adeg yr archwiliad nid oeddynt wedi arwain eto at well canlyniadau i blant dan risg.

Nid oedd gwybodaeth perfformiad i hysbysu dealltwriaeth yr heddlu o ganlyniadau i blant dan risg o niwed wedi ei ddatblygu'n ddigonol ac roedd yn anghyson ar draws yr heddlu. O ganlyniad, nid oedd dealltwriaeth dda o ansawdd gwaith, canlyniadau i blant a galwadau ar gyfer gwasanaeth ymysg uwch arweinwyr. Roedd ffocws

21 Defnyddir proses adolygiadau cyfoedion y Coleg Plismona i werthuso gwaith heddluoedd. Fe'i cyflawnir gan grŵp o bobl sydd ag arbenigedd yn y maes (cyfoedion) i sicrhau bod y gwaith yn bodloni safonau penodol.

mesurau perfformiad ar ansawdd digwyddiadau ac achosion amddiffyn plant, nid ansawdd ymarfer. Mae'r heddlu angen gwneud mwy i ddeall a chofnodi canlyniadau er mwyn gwella a datblygu gwasanaethau ymhellach. Er i'r arolygwyr weld bod timau rheoli unedau rheoli sylfaenol ac uwch arweinwyr yn ymroddedig i wella gwybodaeth rheoli a datblygu fframwaith perfformiad, mae angen mwy o waith i ddatblygu hyn ar draws yr heddlu.

Roedd plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiangen yn nalfa'r heddlu wedi iddynt gael eu cyhuddo cyhuddo pan ddylid fod wedi eu trosglwyddo i ofal yr awdurdod lleol. Hysbyswyd arolygwyr bod yna ddiffyg llety diogel ac anniogel ar gael, ond nid oeddynt yn gallu canfod unrhyw dystiolaeth bod uwch reolwyr wedi cymryd camau i ddatrys y mater. Roedd plant hefyd yn cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, nad yw er lles y plentyn.

Roedd trefniadau i reoli troseddwyr rhyw risg uchel yn effeithiol, ac fe welodd arolygwyr gynlluniau rhyngasiantaethol da i reoli risg. Roedd presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd gan swyddogion o lefel ddigon uchel ac roedd yr heddlu a'r gwasanaethau prawf wedi darparu cyllid ar gyfer swydd cydlynydd MAPPA ymroddedig a staff ategol. Roedd hyn i sicrhau gweinyddiaeth effeithiol o'r broses ac fe'i hystyriwyd i fod yn arfer da.

Mae tri bwrdd amddiffyn plant rhanbarthol yn cwmpasu'r saith ardal awdurdod lleol a wasanaethir gan Heddlu De Cymru. Canmolodd cadeiryddion y byrddau (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol plant) ymroddiad yr heddlu, ond adroddont rai anawsterau o ran cynyddu gwaith y bwrdd ar lefel ranbarthol oherwydd y trosiant uchel o swyddogion yn cynrychioli'r heddlu. Felly hefyd, adroddodd timau rheoli mewn rhai ardaloedd, yn arbennig felly Canolog a Dwyrain, anawsterau wrth ymroi i gynrychiolaeth ystyrlon ar ddau fwrdd rhanbarthol ac is-grwpiau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r prif gwnstabl cynorthwyol yn cwrdd â chadeiryddion y byrddau yn rheolaidd ac roedd yr arolygwyr yn ystyried hyn i fod yn arfer da, gyda'r potensial i ddarparu fforwm effeithiol i ddelio â phryderon a sicrhau cynnydd gyda blaenoriaethau a rennir.

Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai arweinyddion a rheolwyr Heddlu De Cymru, o fewn tri mis:

- ddatblygu a gwella cynllunio'r heddlu parthed yr ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant coll i amddiffyn plant ar gam gynharach; ac i
- ddatblygu fframwaith perfformiad sy'n adrodd ar ddeilliannau'r darparwr gwasanaeth i blant, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau gwelliant.

6. Casgliadau: Effeithiolrwydd cyffredinol yr heddlu a'i ymateb i blant sydd angen help ac amddiffyn

Arddangosodd Heddlu De Cymru ymroddiad cryf i wella gwasanaethau amddiffyn plant. Mae'r prif gwnstabl a'r comisiynydd yr heddlu a throseddu wedi blaenoriaethu amddiffyn plant ac mae'n glir bod yna ffocws ledled yr heddlu ar gyflawni canlyniadau da i blant.

Mae'r heddlu yn gyffredinol dda ar ddiogelu plant sydd â'r angen mwyaf am help ac amddiffyniad gyda gwaith amlasiantaethol da ac ymagwedd ble mae'r plentyn yn ganolog. Ble ceir anghysondebau mewn lefelau galw ac adnoddau, yn arwain at amrywiaethau mewn ymarfer ar draws yr heddlu, mae'r adolygiad diogelu'r cyhoedd yn darparu cyfle gwirioneddol i wasanaethau gael eu hail ffurfweddu i baru adnoddau yn well i alw, a sicrhau safonau ymarfer da yn gyson ar draws ardal yr heddlu i wella canlyniadau i blant. Ynghyd â hyn, dylid datblygu fframwaith perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau i blant sydd angen amddiffyniad (yn hytrach na'r nifer o achosion a broseswyd) a'i gyflwyno i alluogi'r heddlu i fonitro a gwella ei waith amddiffyn plant yn barhaus.

Mae angen gwella'r ymateb i blant sy'n mynd ar goll o adref yn rheolaidd – gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar a sicrhau bod swyddogion a staff yn deall y cyswllt rhwng plant sy'n mynd ar goll yn rheolaidd a chamfanteisio'n rhywiol.

Mae Heddlu De Cymru wedi cydnabod nad yw ei ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi ei ddatblygu'n ddigonol ac mae'n cymryd camau i ddelio â hyn. Fodd bynnag, mae gan yr heddlu lawer mwy i'w wneud i ddeall natur ac ehangder camfanteisio'n rhywiol ar blant yn y cymunedau mae'n gwasanaethu. Felly hefyd, mae angen gwneud rhagor o waith gyda sefydliadau partner i ddatblygu ymateb ar draws yr heddlu sy'n diogelu plant a phobl ifanc bregus rhag niwed.

Mae gan Heddlu De Cymru berthynas weithredol dda gyda'r saith awdurdod lleol a'r gwasanaethau eraill sy'n gweithredu ar draws ardal yr heddlu. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy trwy weithio ar y cyd i gyflawni gwell gwasanaethau, yn arbennig i blant yn y ddalfa, plant gyda phroblemau iechyd meddwl a'r rhai sydd dan risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

7. Argymhellion

Ar unwaith

Rydym yn argymell fod Heddlu Cymru yn cymryd camau ar unwaith i wella ymarfer mewn achosion o blant sy'n mynd ar goll o adref. Fel isafswm, dylai hyn gynnwys:

- **gwella ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant a adroddir i fod ar goll o adref ac, yn benodol, yr achosion hynny ble mae'n ddigwyddiad rheolaidd;**
- **gwella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sy'n mynd ar goll o adref a'r risg o gamfanteisio rhywiol;**
- **gwella ymwybyddiaeth staff o arwyddocâd dwyn ynghyd yr holl wybodaeth sydd ar gael o systemau'r heddlu, gan gynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n cyflwyno risg i blant, er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o asesiadau risg;**
- **sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r angen i basio'r wybodaeth hon ymlaen at asiantaethau eraill; a**
- **nodi'r ystod o ymatebion a chamau y gall yr heddlu gyfrannu i gynlluniau amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yn yr achosion hyn.**

O fewn tri mis

Argymhellwn, o fewn tri mis, fod Heddlu De Cymru yn gweithredu i wella ymchwiliadau diogelu plant trwy sicrhau, fel isafswm:

- **bod pob atgyfeiriad a dderbynnir gan yr heddlu wedi ei neilltuo i dîm gyda'r sgiliau, y gallu a'r gymhwyster i gyflawni'r ymchwiliad;**
- **bod ymchwiliadau yn cael eu goruchwylio a monitro ac, ym mhob gwiriad, bod y goruchwyliwr yn adolygu'r dystiolaeth ac yn nodi unrhyw ymholiadau pellach/casglu tystiolaeth sydd angen ei wneud;**
- **nes bydd y newidiadau hyn wedi eu mewnosod, dylai'r heddlu gynnal adolygiadau rheolaidd o ymarfer sy'n cynnwys ansawdd ac amseroldeb ymchwiliadau; ac**
- **y cymerir camau pellach gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro a gwella amseroldeb adolygiadau achosion a phenderfyniadau cyhuddo.**

Argymhellwn fod Heddlu De Cymru, o fewn tri mis, yn cyflawni adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill) o sut mae'n rheoli cadw plant. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm, y ffordd orau o:

- **sicrhau bod plant yn cael eu cadw dim ond ble fo'n gwbl angenrheidiol ac am yr isafswm amser yn unig;**
- **asesu'r angen am lety amgen, a hynny'n fuan, (diogel neu beidio) ac i weithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni'r opsiwn gorau i'r plentyn;**
- **sicrhau bod staff y ddalfa yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol i gwblhau tystysgrifau dalfa os yw plentyn yn cael ei gadw am unrhyw reswm yn nalfa'r heddlu yn dilyn cyhuddiad;**
- **sicrhau bod staff y ddalfa yn creu cofnod o'r holl gamau a gymerwyd a phenderfyniadau a wnaethpwyd ar ddogfennaeth berthnasol;**
- **sicrhau fod plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu fel mesur pan fetho popeth arall, am yr isafswm amser;**
- **sicrhau y rhoddir ystyriaeth atodol i ddefnyddio aelodau teulu fel oedolion priodol ar gyfer plant a gedwir dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac yr anogir cefnogaeth rieniol a phresenoldeb bersonol yn ystafelloedd y ddalfa; a**
- **gwella ymwybyddiaeth ymysg staff y ddalfa o amddiffyn plant (yn cynnwys y risg o gamfanteisio rhywiol), y safon o asesiad risg sydd ei angen i adlewyrchu anghenion plant, a'r gefnogaeth sydd ei angen wrth gadw ac ar ryddhau.**

Rydym yn argymell y dylai arweinyddion a rheolwyr Heddlu De Cymru, o fewn tri mis:

- **ddatblygu ymhellach a gwella cynllunio'r heddlu parthed yr ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant coll i amddiffyn plant ar gam gynharach; a**
- **datblygu fframwaith perfformiad sy'n adrodd ar ddeilliannau'r darparwr gwasanaeth i blant, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau gwelliant.**

O fewn chwe mis

Rydym yn argymell y dylai Heddlu De Cymru, o fewn chwe mis, sicrhau:

- **bod staff yn cofnodi barnau a phryderon plant;**
- **bod staff yn cofnodi'r canlyniad ar gyfer y plentyn ar ddiwedd ymwneud yr heddlu mewn achos;**
- **bod staff yn hysbysu plant, fel fo'n briodol, o unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd amdanynt; ac**
- **y darperir gwybodaeth am anghenion a barnau plant, ar sail reolaidd, ar gyfer ystyriaeth gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu ac i reolwyr gwasanaeth i hysbysu arfer yn y dyfodol.**

Rydym yn argymell bod Heddlu De Cymru, o fewn chwe mis, yn gwerthuso effaith ei fuddsoddiad mewn taclo camfanteisio'n rhywiol ar blant – yn benodol, i ba raddau mae'r dulliau newydd yn arwain at wella ymchwiliadau, gwella cynlluniau amddiffynnol, ac amhariad i droseddwyr, ac wedi hynny **yn gweithredu canlyniadau y gwerthusiad hwnnw gyda'r bwriad o wella ymarfer.**

8. Camau nesaf

O fewn chwe wythnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd HMIC yn gofyn am ddiweddariad o'r camau sy'n cael eu gweithredu i ymateb i'r argymhellion y dylid gweithredu arnynt ar unwaith.

Dylai Heddlu De Cymru hefyd ddarparu cynllun gweithredu o fewn chwe wythnos i nodi sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion eraill a wnaethpwyd yn yr adroddiad hwn.

Yn amodol i'r ymatebion a dderbynnir, bydd HMIC yn edrych eto ar yr heddlu yn ddim hwyrach na chwe mis wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i asesu sut mae'n rheoli gweithrediad yr holl argymhellion.

Atodiad A
Methodoleg yr archwiliad amddiffyn plant

Amcanion

Amcanion yr archwiliad yw:

- i asesu pa mor effeithiol yw heddluoedd o ran diogelu plant sydd dan risg;
- i wneud argymhellion i heddluoedd ar gyfer gwella arferion amddiffyn plant;
- i amlygu arferion effeithiol o ran gwaith amddiffyn plant; ac
- i ysgogi gwelliannau yn arferion amddiffyn plant heddluoedd.

Sefydlir disgwyliadau asiantaethau yn y canllaw statudol Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004[22]. Y rolau heddlu penodol a gyflwynir yn y canllaw yw:

- nodi plant allai fod dan risg o gam-drin ac esgeulustod;
- ymchwilio i droseddau honedig yn erbyn plant;
- gwaith rhyngasiantaethol a rhannu gwybodaeth i amddiffyn plant; ac
- arfer pwerau argyfwng i amddiffyn plant.

Dyma'r meysydd ymarfer sy'n ffocws i'r archwiliad.

Ymagwedd archwilio

Roedd archwiliadau yn ffocysu ar y profiadau a'r canlyniadau i'r plentyn yn dilyn ei daith trwy brosesau amddiffyn plant ac ymchwiliadau troseddol. Fe asesont pa mor dda oedd y gwasanaeth wedi helpu a diogelu plant ac ymchwilio i weithredoedd troseddol honedig, gan ystyried, ond heb fesur cydymffurfiad â, polisïau a chanllaw.

Ystyriodd yr archwiliadau sut oedd y trefniadau i ddiogelu plant, ac arweinyddiaeth a rheolaeth gwasanaeth yr heddlu, wedi cyfrannu i a chefnogi arfer effeithiol yn ymarferol. Fe ystyriodd y tîm pa mor dda y bodlonwyd cyfrifoldebau rheoli ar gyfer amddiffyn plant, fel y sefydlwyd yn y canllaw statudol.

[22] *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2007 (diweddariad diwethaf), ar gael gan: http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/safeguardingunder2004act/?lang=cy

Dulliau

- Hunanasesu – arferion, a rheolaeth ac arweinyddiaeth.
- Archwiliadau achos.
- Trafodaethau gyda staff yn yr heddlu a gan asiantaethau eraill.
- Adroddiadau archwilio ar adolygiadau achos arwyddocaol neu achosion difrifol eraill.
- Archwiliad o ystadegau gwasanaeth, adroddiadau, polisïau a deunyddiau ysgrifenedig perthnasol eraill.

Diben yr hunanasesiad yw i:

- godi ymwybyddiaeth yn y gwasanaeth o gryfderau a gwendidau arferion presennol (roedd hyn yn sail i drafodaethau gyda HMIC); a
- fod yn ysgogydd a meincnod ar gyfer gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol.

Hunanasesiad ac archwiliad o achosion

Mewn ymgynghoriad â gwasanaethau'r heddlu, mae'r meysydd ymarfer canlynol wedi eu nodi ar gyfer craffu:

- cam-drin domestig;
- digwyddiadau ble mae swyddogion yr heddlu a staff yn nodi plant sydd angen help ac amddiffyniad, e.e. plant sy'n cael eu hesgeuluso;
- rhannu gwybodaeth a thrafodaethau parthed plant allai fod dan risg o niwed;
- arfer grymoedd amddiffyn yr heddlu dan adran 46 y Ddeddf Plant 1989 (mynd â phlant i 'le diogel');
- cwblhau ymholiadau Adran 47 Deddf Plant 1989, yn cynnwys rhai o natur droseddol a'r rhai nad ydynt o natur droseddol (mae ymholiadau Adran 47 yn rai sy'n ymwneud â phlentyn 'mewn angen' yn hytrach na phlentyn 'dan risg');
- rheoli troseddwyr rhyw;
- rheoli plant sydd ar goll;
- camfanteisio'n rhywiol ar blant; a
- chadw plant yn nalfa'r heddlu.

Isod ceir dadansoddiad o’r mathau o achosion a hunanaseswyd a archwiliwyd gennym yn Heddlu De Cymru.

Math o achos	Nifer o achosion
Ymholiad amddiffyn plentyn (a. 47)	5
Cam-drin domestig	5
Pryderon cyffredinol am blentyn ble cyfeiriwyd y mater at wasanaethau gofal cymdeithasol plant	5
Ymholiad troseddwr rhyw	3
Plant sydd ar goll	3
Amddiffyniad yr heddlu	3
Dan risg o gamfanteisio rhywiol	3
Cam-drin rhywiol ar-lein	3
Plentyn yn y ddalfa	3

Atodiad B
Geirfa

plentyn	unigolyn dan 18 oed
cynhadledd asesiad risg amlasiantaethol (MARAC)	cyfarfod a gynhelir yn lleol ble daw cynrychiolwyr asiantaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i rannu gwybodaeth am ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig; gall unrhyw asiantaeth gyfeirio oedolyn neu blentyn y creda i fod dan risg uchel o niwed; nod y cyfarfod yw i gynhyrchu cynllun gweithredu cydlynol i hybu diogelwch, iechyd a lles oedolyn neu blentyn; bydd yr asiantaethau sy'n mynychu yn debygol o gynnwys, er enghraifft: yr heddlu, gwasanaethau prawf, plant, iechyd a thai; mae yna dros 250 yn weithredol ar draws Cymru a Lloegr ar hyn o bryd
canolfan ddiogelu amlasiantaethol (MASH)	endid ble mae sefydliadau sector cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau cyffredin neu wedi alinio parthed diogelwch pobl fregus yn gweithio; mae'r canolfannau yn cynnwys staff o sefydliadau megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; maent yn gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth a chydlynu gweithgareddau i helpu diogelu'r plant ac oedolion mwyaf bregus rhag niwed, esgeuluso a cham-drin

Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)	adran anweinidogol, sy’n annibynnol o’r llywodraeth, yn rheoleiddio ac archwilio ysgolion, colegau, dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant sgiliau, dysgu i oedolion a chymunedol, addysg a hyfforddiant mewn carchardai a sefydliadau diogel eraill, a’r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd; yn asesu gwasanaethau plant mewn ardaloedd lleol, ac yn archwilio gwasanaethau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, diogelu a gwarchod plant; adrodd yn uniongyrchol i’r Senedd
trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA)	trefniadau a sefydlwyd yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i asesu a rheoli’r risg a gyflwynir gan droseddwyr rhyw a threisgar penodol; yn gofyn i asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy’n delio â throseddwyr gydweithio mewn partneriaeth i leihau’r risg o droseddu treisgar neu rywiol difrifol pellach gan y troseddwyr hyn
comisiynydd yr heddlu a throseddu (PCC)	endid etholedig ar gyfer ardal heddlu, a sefydlwyd dan adran 1, Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy’n gyfrifol am sicrhau cynhaliaeth yr heddlu ar gyfer yr ardal honno a sicrhau fod yr heddlu yn effeithiol ac effeithlon; yn dal y prif gwnstabl perthnasol yn atebol am blismona’r ardal; yn sefydlu’r gyllideb a chynllun heddlu a throseddu ar gyfer yr heddlu; yn penodi a gallai, wedi dilyn y drefn briodol, ddiddymu’r prif gwnstabl o’i swydd

troseddwr rhyw cofrestredig	unigolyn sy’n gorfod rhoi ei fanylion i’r heddlu am ei fod wedi ei gollfarnu neu gael rhybudd am drosedd rhyw fel y sefydlwyd yn Atodlen 3 i’r Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, neu am ei fod wedi achosi'r gofynion hysbysu mewn unrhyw ffordd arall (er enghraifft, trwy fod yn destun gorchymyn atal troseddau rhyw); yn ogystal â manylion personol, rhaid i unigolyn cofrestredig roi manylion am ei symudiadau i’r heddlu, er enghraifft, rhaid iddo ddweud wrth yr heddlu os yw’n mynd dramor ac, os yw’n ddigartref, ble gellir dod o hyd iddo; gall yr heddlu, gwasanaeth prawf a gwasanaeth carchardai gael mynediad at fanylion cofrestredig